Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1

Staff

Mrs Nia Vaughan Jones
Mrs Ann Griffith
Miss Linda Owen
Mrs Glynis Ellis
Mrs Menna Jones

Darllen/Cofnod Darllen

Bydd eich plentyn yn cael dewis llyfr i fynd adref, a byddwn yn newid y llyfr pan fydd eich plentyn yn dychwelyd y bag darllen. Gofynnwn i chi ysgrifennu sylwadau ar ôl darllen gyda'ch plentyn.
Bydd plant y dosbarth Derbyn yn cael llyfr sŵn i fynd adre bob Dydd Gwener.

Thema Teithio

Bydd holl weithgareddau y dosbarth yn deillio o'r thema teithio.
Byddwn yn.....

- Gwrando ar storiau am deithio, a chofio ac adrodd y storiau.
- Adnabod ac enwi gwahanol fathau o deithio.
- Dysgu am deithio erstalwm.
- Edrych ar lyfrau gwybodaeth a llyfrau storiau am deithio.
- Gwneud llyfr stori a cherddi am deithio.
- Mynd am dro i lan y môr, a dilyn thema môr ladron.
- Creu siop esgidiau yn y dosbarth.
- Gwneu caffi yn yr ardal tu allan
- Gweithgareddau arian, amser a chyfrif fesul 2, 5 a 10.

Addysg

Mae ein gwersi Addysg Gorfforol ddwy waith yr wythnos.
Dydd Mercher - tu allan, bydd eich plentyn angen esgidiau addas.
Dydd Iau – Gwersi nofio.

Tripiau/Gweithgareddau

Bydd gweithgareddau amrywiol yn yr ardaloedd o fewn y dosbarth i gyd fynd â'r thema, e.e. Yn yr ardal ddŵr - creu râs gychod.
Hefyd bydd y gweithgareddau tu allan yn deillio o thema'r dosbarth, ee peli a dŵr yn teithio ar hyd pibellau.